# YR ATODLEN

Rheoliad 5

## Darparu Gwybodaeth gan Ysgolion ac Awdurdodau Lleol

**1.** Yr wybodaeth a ganlyn am y person—

(a) rhyw;

(b) dyddiad geni;

(c) rhif yswiriant gwladol;

(d) enw llawn;

(e) grŵp ethnig (os yw'n hysbys);

(f) a oes gan y person anabledd o fewn ystyr "disability" yn adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**) (os yw'n hysbys); ac

(g) cyfeirnod swyddogol a neilltuwyd gan y Cyngor, pan fo cyfeirnod o'r fath ar gael(**2**).

**2.** Swydd y person a'r rôl neu'r rolau a gyflawnir gan y person.

**3.** A yw'r person wedi cyrraedd y safonau sy'n ofynnol ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd(**3**).

**4.** Mewn cysylltiad â'r contract cyflogaeth neu'r contract am wasanaethau—

(a) a yw'r person wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau ("y Contract");

(b) y dyddiad y dechreuodd y Contract;

(c) yr oriau a'r wythnosau (os oes rhai) y pennodd y Contract y mae rhaid eu gweithio; a

(d) pan fo'n gymwys, y dyddiad y daeth y Contract hwnnw i ben neu y mae i fod i ddod i ben.

**5.** Pan fo'r person wedi ei gymryd ymlaen ar gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau er dyddiad y cyfrifiad blaenorol neu er diwedd cyfnod y cyfrifiad blaenorol, manylion cyflogaeth neu fel arall y person hwnnw yn union cyn y dechrau hwnnw, os ydynt yn hysbys.

**6.** Pan fo'r person wedi ei gyflogi neu yn cael ei gyflogi, neu wedi ei gymryd ymlaen neu yn cael ei gymryd ymlaen i weithio, mewn cyfnod o gyflogaeth ddi-dor, y dyddiad y dechreuodd y cyfnod hwnnw.

**7.** Tâl y person gan gynnwys, pan fo'n gymwys—

(a) y cyflog blynyddol;

(b) yr ystod cyflog(**4**) sy'n gymwys i'r person hwnnw;

(c) safle'r cyflog blynyddol ar unrhyw ystod cyflog gymwys;

(d) a yw unrhyw ran o'r cyflog blynyddol wedi ei diogelu o fewn ystyr Rhan 5 o'r Ddogfen;

---

(**1**) 2012 p. 15.

(**2**) Neilltuir y cyfeirnod swyddogol i berson cofrestredig gan Gyngor y Gweithlu Addysg ac mae'n cael ei gofnodi gan y Cyngor yn y gofrestr yn rhinwedd paragraff 4 o Atodlen 2 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015. Cynhelir y gofrestr gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn unol ag adran 9 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

(**3**) Cyhoeddwyd y canllawiau cyfredol ym mis Medi 2011 ac maent wedi eu cynnwys yng nghylchlythyr 020/2011 sy'n dwyn y teitl "Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru". Mae copi o'r canllawiau ar gael yn www.learning.gov.wales.

(**4**) Mae'r ystodau cyflog cymwys presennol ar gyfer athrawon ysgol wedi eu nodi yn y Ddogfen, sef yr ystod cyflog arwain (gweler adran 9 o'r Ddogfen), y brif ystod cyflog (gweler adran 13 o'r Ddogfen), yr ystod cyflog uwch (gweler adran 14 o'r Ddogfen), yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol (gweler adran 16 o'r Ddogfen) neu'r ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso (gweler adran 17 o'r ddogfen). Mewn cysylltiad â gweithwyr cymorth dysgu ysgolion bydd yr ystod cyflog yn cael ei phennu gan y cyflogwr, sef naill ai'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, neu gorff llywodraethu'r ysgol lle y mae'r person yn gweithio.

(e) a yw cyfradd cyflog ddyddiol yn daladwy(**5**); ac

(f) unrhyw daliadau ychwanegol(**6**) y darperir ar eu cyfer gan—

(i) y Ddogfen; neu

(ii) cod sy'n cyfleu'r wybodaeth honno.

**8.** Mewn perthynas â'r addysgu a gyflawnir gan y person ("P")—

(a) y meysydd dysgu neu'r pynciau a addysgir gan P;

(b) a yw P yn addysgu'r cyfnod sylfaen;

(c) a yw P yn addysgu'r cyfnodau allweddol ac os felly, pa gyfnodau allweddol;

(d) a yw P yn addysgu meysydd dysgu neu bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ac eithrio maes dysgu datblygu'r Gymraeg neu'r Gymraeg fel pwnc;

(e) blwyddyn ysgol y cwricwlwm cenedlaethol a addysgir gan P;

(f) yr enw a roddir i'r dosbarth ysgol gynradd gan y pennaeth at ddiben nodi'r dosbarth hwnnw ac sy'n cael ei gynnwys yn y cyfrifiad CYBLD a pha ddosbarth a addysgir gan P; ac

(g) faint o ddysgu y mae P wedi ei ddarparu neu y disgwylir iddo ei ddarparu yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau ar y dydd Llun yn union cyn dyddiad y cyfrifiad.

**9.** Pan fo'r person yn absennol ar ddyddiad y cyfrifiad, y ffaith ei fod yn absennol.

**10.** Mewn cysylltiad â phob achlysur y bu person yn absennol o'r gwaith ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y cyfrifiad neu ar ddyddiad y cyfrifiad—

(a) y rheswm dros yr absenoldeb; a

(b) ar gyfer y cyfnod absenoldeb hwnnw, y diwrnod cyntaf a, phan fo'n gymwys, y dyddiad olaf yr oedd y person yn absennol a nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd.

**11.** Pan fo contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau y person ("P") wedi ei derfynu yn ystod cyfnod y cyfrifiad—

(a) y rheswm dros y terfyniad hwnnw;

(b) os yw'n hysbys, a yw P wedi sicrhau cyflogaeth bellach, ac os felly, ei lleoliad a'i math:

(c) blynyddoedd ysgol y cwricwlwm cenedlaethol a addysgwyd gan P yn ystod y cyfnod cyfrifiad hwnnw; a

(d) os yw'n hysbys, nifer y blynyddoedd o brofiad addysgu a enillwyd gan P er dod yn athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig ar yr adeg y terfynwyd swydd P.

**12.** Pa un a yw'r person yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio.

**13.** Lefel sgiliau Cymraeg person.

**14.** Mewn cysylltiad â phob swydd wag ar gyfer staff addysgu yn yr ysgol a hysbysebwyd yn ystod cyfnod y cyfrifiad—

(a) a yw'r swydd wag wedi ei llenwi;

(b) os yw'r swydd wag wedi ei llenwi, y dyddiad y penodwyd person i'r swydd;

(c) os nad yw'r swydd wag wedi ei llenwi, y rheswm pam na chafodd ei llenwi;

---

(**5**) Mae paragraff 43 o'r Ddogfen a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg ym mis Medi 2016 yn datgan bod rhaid talu athrawon sy'n cael eu cyflogi o ddydd i ddydd neu ar sail byr rybudd arall yn unol â darpariaethau'r Ddogfen ar sail ddyddiol a gyfrifir ar y rhagdybiaeth bod blwyddyn waith lawn yn 195 o ddiwrnodau, ac y cyfrifir cyfnodau cyflogaeth o lai na diwrnod ar sail pro rata. Mae'r Ddogfen yn cael ei diweddaru gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn flynyddol.

(**6**) Mae paragraff 26 o'r Dogfen a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg ym mis Medi 2016 yn gwneud darpariaeth ynghylch taliadau ychwanegol.

(d) teitl y swydd ar gyfer y swydd wag;

(e) y meysydd dysgu y bydd yn ofynnol i ymgeisydd llwyddiannus eu haddysgu;

(f) y pynciau y bydd yn ofynnol i ymgeisydd llwyddiannus eu haddysgu;

(g) y cyfnodau allweddol y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus eu haddysgu;

(h) blwyddyn ysgol y cwricwlwm cenedlaethol y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ei haddysgu;

(i) a yw'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ofynnol ar gyfer y swydd wag;

(j) nifer y ceisiadau a gafwyd am y swydd wag; a

(k) y dyddiad y cafodd y swydd wag ei hysbysebu gyntaf.